

Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd Supporting Businesses in Gwynedd



 CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>
- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19>

COVID-19: Pàs COVID-19 – penwythnos cyntaf

Ers dydd Llun 11 Hydref 2021, mae angen i bob oedolyn ddangos Pàs COVID GIG, neu brawf COVID-19 negyddol, i fynd i mewn i glybiau nos a lleoliadau tebyg, neu fynd i ddigwyddiadau mwy.

Am ganllawiau manwl parthed i bwy mae'r rheoliad yn berthnasol, a sut y dylid ei weithredu, ewch i:

<https://llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau-html>

- Ar gyfer asedau digidol Pàs COVID, ewch i:
<https://bit.ly/AsedauPasCovidPassAssets>
- Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddefnyddio Pàs COVID yn:
<https://llyw.cymru/defnyddio-pas-covid-y-gig-i-fynd-i-ddigwyddiadau-mawr-chlybiau-nos>
- Gellir dod o hyd i wybodaeth am gael Pàs COVID yn:
<https://llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig>

TECH: Gweithdai ‘Dod yn Dref SMART’

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd. Bydd gweithdai 'Dod yn Dref SMART' yn cael eu cynnal ym mis Hydref. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

<https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/gweithdai-trefi-smart-cymru/>

TECH: Rhyngrwyd y Pethau – IoT – yn Fferm Coleg Glynllifon

Dros y dair blynedd ddiwethaf mae Arloesi Gwynedd Wledig wedi peilota prosiect Rhyngrwyd y Pethau – IoT – yng Nglynllifon i ddysgu sut gallai'r dechnoleg yma fod o fudd i ffermwyr. I wylio fidio am y prosiect, ewch i:

<https://www.youtube.com/watch?v=rKke7XXnltE>

TECH: Gofod gwneud Ffiws Porthmadog

Mae gofod gwneud Ffiws yn cynnig mynediad i ystod o offer modern. Gall busnesau elwa o becyn cymorth gan gynnwys

amser ychwanegol gyda thechnegydd i ddysgu sut i wneud y mwyaf o'r offer a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/pecyn-cymorth-ffiws/>

Mae amserlen mis Hydref Ffiws ar gael. I gael gweld yr holl ddigwyddiadau sydd ar gael, ac i archebu lle, ewch i:

<https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/amserlen-ffiws-mis-hydref/>

DYSGU: Ehangu Gorwelion gydag Ecwiti BYW

Bydd cynhadledd hanner diwrnod am ddim ar fuddsoddi ecwiti yn cael ei chynnal ar 4 Tachwedd 2021. Os ydych chi'n berchennog busnes sy'n edrych i dyfu, busnes newydd sy'n chwilio am fuddsoddiad, neu os ydych chi'n bwriadu prynu neu werthu busnes, bydd y gynhadledd yn eich helpu i gyflwyno, cynllunio a dod o hyd i'r buddsoddiad cywir sy'n addas ar gyfer eich busnes. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://www.ecwiti.cymru/>

DIGWYDDIAD: BlasCymru/TasteWales 2021 27-28 Hydref 2021

Cynhelir digwyddiad a chynhadledd masnach bwyd a diod BlasCymru/TasteWales 2021 ar 27-28 Hydref 2021, yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICCW). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<https://www.tastewales.com/cy/>

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

<https://twitter.com/BusnesGwynedd>

Rhwydwaith Busnes Gwynedd

<https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan>

<https://twitter.com/gwyneddbusnes>

Busnes Cymru

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/>

https://twitter.com/_busnescymru

Busnes@llandrillomenai

<https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts>

<https://twitter.com/busnesLLM>

FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

Croeso Cymru

<https://twitter.com/croesocymrubus>

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf

<https://bit.ly/3kIWPAU>

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwrch
busnes@gwynedd.llyw.cymru